



Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2020

## Gwasanaethau ymgynghori

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth. Gallaf gadarnhau bod gennym ni rywffaint o'r wybodaeth rydych yn gofyn amdani. Roeddech chi wedi gofyn am y canlynol:

- **Manylion am yr holl ymgynghorwyr sydd wedi'u cyflogi gan TrC ers ei ffurfio. Dylai'r manylion hynny gynnwys enw, cwmni, pedwar digid cyntaf cod post y cartref, hyd y contract, y gyfradd fesul diwrnod, y treuliau a dalwyd a chyfanswm y gost. Dylai hefyd gynnwys disgrifiad byr o'r gwaith ymgynghori a wnaed a ble oedden nhw wedi'u lleoli.**

Fodd bynnag, mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yng nghyswllt 'enw' a 'phedwerydd digid cyntaf y cod post' wedi'i eithrio os yw'n ymwneud ag unigolion. Mae Adran 40 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) yn eithrio'r hawl i wybodaeth os yw'n ddata personol fel sydd wedi'i ddiffinio yn Neddf Diogelu Data (2018). Mae data personol ond yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion:

- y gellir eu hadnabod o'r wybodaeth dan sylw; neu
- y gellir eu hadnabod yn anuniongyrchol o'r wybodaeth honno ar y cyd â gwybodaeth arall

Yn ein barn ni, gallai cyfuniad o enw unigolyn neu enw'r cwmni (ac eithrio lle maent yn masnachu yn ôl yr enw hwnnw) a phedwar digid cyntaf eu cod post ddatgelu pwysu yw'r unigolyn yn anuniongyrchol. Hefyd, dylid nodi nad ydym yn cadw cofnod o enwau ymgynghorwyr unigol, yn hytrach rydym ni'n cadw enw'r cwmni sydd dan contract â Thrafnidiaeth Cymru. Rydym wedi diffinio ymgynghori fel gwaith prosiect sy'n gyfyngedig o ran amser.

Nid yw gwybodaeth am dreuliau a dalwyd wedi'i chynnwys. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cael ei ymgorffori yn yr anfonebau. Roeddem yn arfer talu treuliau rhai ymgynghorwyr allanol drwy ffurflen cyflwyno treuliau. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r wybodaeth hon, byddai angen dadansoddi'r data am daliadau ein cyfrifon a nodi'r taliadau i ymgynghorwyr. Byddai hyn yn mynd â ni dros y terfyn o £600 i brosesu'r cais, yn seiliedig ar ganllawiau FCO sy'n seiliedig ar gyfradd amser staff o £25 yr awr i bob person, ni waeth pwysu sy'n gwneud y gwaith.

Rydym hefyd wedi penderfynu na fydd gwybodaeth am y gyfradd fesul diwrnod yn cael ei datgelu oherwydd ei bod yn dod o dan adran 43(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r adran yma'n eithrio gwybodaeth os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio



buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal yr wybodaeth), neu os byddai ei datgelu yn debygol o wneud hynny. Ystyrir bod gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfraddau fesul diwrnod yr ymgynghorwyr sy'n cael eu defnyddio gan TrC wedi'i heithrio dan adran 43(2) y Ddeddf.

Mae Adran 43(2) yn eithriad wedi'i gymhwyso, ac mae'n rhaid i ni gynnal prawf budd y cyhoedd wrth roi unrhyw eithriad wedi'i gymhwyso ar waith. Felly, ar ôl penderfynu bod yr eithriad yn berthnasol, rhaid ystyried y budd i'r cyhoedd petai'r wybodaeth yn cael ei rhyddhau. Os byddai'n fwy buddiol i'r cyhoedd petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu yn hytrach na'i bod yn cael ei dal yn ôl, ni fydd yr eithriad yn berthnasol a rhaid rhyddhau'r wybodaeth. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys rhagdybiaeth y dylid rhyddhau gwybodaeth oni bai fod rhesymau cadarn dros ei dal yn ôl.

Roedd yr ystyriaethau o blaid rhyddhau'r wybodaeth yn cynnwys ymrwymiad Trafnidiaeth Cymru i fod yn agored ac yn dryloyw yn ei weithgareddau masnachol, i ganiatáu craffu cyhoeddus ac i ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Hefyd, mae cwmnïau yn y sector preifat sy'n ymwneud â gweithgareddau masnachol yn y sector cyhoeddus yn gorfod disgwyl y bydd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei datgelu am y gweithgareddau hynny.

Roedd yr ystyriaethau yn erbyn datgelu yn cynnwys cydnabod y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio buddiannau masnachol yr ymgynghorwyr yn y wybodaeth amgaeedig. Gallai datgelu cyfraddau fesul diwrnod effeithio ar gyfraddau tendro cyflenwyr a pheidio â chaniatáu amgylchedd priso cystadleuol wrth i gyflenwyr dorri prisiau neu addasu eu prisiau i gyd-fynd â'r cyfraddau. Mae hyn yn effeithio ar fuddiannau masnachol yr holl ymgynghorwyr yn yr wybodaeth amgaeedig.

Fel eithriad wedi'i gymhwyso, rydym wedi ystyried a yw dal yr wybodaeth yn ôl, ym mhob amgylchiadau'r achos, yn fwy buddiol i'r cyhoedd na datgelu'r wybodaeth, ac rydym yn fodlon ei fod; yn unol â hynny, ein penderfyniad yw dal yr wybodaeth yn ôl.

Mae'r wybodaeth rydyn ni'n ei darparu wedi'i chynnwys yn y ddwy daenlen isod. Mae'r data wedi'i rannu'n ddwy ran oherwydd ei fod wedi'i dynnu o'r systemau cyllid sydd gennym ers ein sefydlu: Sage (dros dro) a Dynamics (presennol).



Dylid nodi'r canlynol:

**Ar y daenlen Dynamics;**

- Mae'r golofn isod yn nodi bod post cod lleoliad y cwmni wedi'i gymryd o Dynamics. Efallai mai lleoliad eu swyddfa cyllid yw hwn.



- Mae'r golofn isod yn diffinio ym mha swyddfa TrC oedden nhw wedi'u lleoli. Mae hyn wedi'i nodi lle bo'n berthnasol. Mae Amh yn golygu eu bod wedi eu lleoli yn eu swyddfa eu hunain.

- Mae rhai celloedd lle nad oes gennym wybodaeth. Mae'r celloedd hyn wedi'u hamlygu mewn melyn.

### **Ar y daenlen Sage;**

- Yn y golofn isod, mae'r rhan fwyaf o'r codau post wedi'u cymryd o Dŷ'r Cwmniau

- Mae'r golofn isod yn diffinio ym mha swyddfa TrC oedden nhw wedi'u lleoli. Mae hyn wedi'i nodi lle bo'n berthnasol. Mae Amh yn golygu eu bod wedi eu lleoli yn eu swyddfa eu hunain.

- Mae rhai llinellau cyflenwyr yn nodi bod yr wybodaeth ar y daenlen Dynamics.

- Mae rhai celloedd lle nad oes gennym yr wybodaeth. Mae'r celloedd hyn wedi'u hamlygu mewn melyn.

Mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru